# POLISI

**Dyfarnu grantiau/darparu cymorth ariannol**

**DRAFT@ Medi 2023**

**(yn unol â Safonau'r Gymraeg 75,76A,78,79, 100)**

**Adran** **Rh. Tudalen** **Rh. Paragraff**

## 1. Cyd-destun

## 2. Statws

## 3. Polisi

## 4. Gweithdrefn

## 5. Monitro

## 6. Adolygu

## Atodiadau:

**6.1** Atodiad 1: Fframwaith Asesu

**6.2** Atodiad 2: Rhestr Wirio

**6.3** Atodiad 3: Dogfen Comisiynydd y Gymraeg 'Polisi ar ddyfarnu grantiau: Cyngor ar arfer da'

**Os hoffech chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, dderbyn y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Swyddog Amrywiaeth yn diversity@nptcgroup.ac.uk neu ar 01639 648175.**

## 1. Cyd-destun

**1.1** Y safonau perthnasol o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yw:

*Rhaid i unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol, gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, ac ni ddylech drin fersiwn Gymraeg o ddogfennau o'r fath yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg* ***(Safon 75).***

*Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, rhaid i chi ddatgan yn y gwahoddiad y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.* ***(Safon 76A)***

*Rhaid i chi beidio â thrin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymhlith materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ac mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau). (Safon 76A)*

*Os ydych yn derbyn cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg ac mae angen cyfweld â'r ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid i chi — (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn galluogi'r ymgeisydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).* ***(Safon 78)***

*Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd am eich penderfyniad mewn perthynas â chais am grant neu gymorth ariannol, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.* ***(Safon 79)***

*Rhaid i chi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu gymorth ariannol (neu, lle bo'n briodol, newid polisi sy'n bodoli eisoes) sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y materion canlynol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol -*

*(a) pa effeithiau, os o gwbl (ac a ydynt yn gadarnhaol neu'n negyddol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar -*

*(i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*

*(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

*(b) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar -*

*(i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*

*(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

*(c) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -*

*(i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*

*(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;*

*(ch) a oes angen i chi ofyn i'r ymgeisydd am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effeithiau dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar -*

*(i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a*

*(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**. (Safon*** 100)

**1.2** Os oes angen cymorth ar unrhyw aelod o staff i ddeall neu weithredu'r polisi hwn, yn enwedig lle mae'r rhesymau dros hyn yn gysylltiedig ag anabledd, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, oedran neu hil, dylent gysylltu â'r Uwch Swyddog: Amrywiaeth neu'r Uned Adnoddau Dynol, yn y lle cyntaf i gael cyngor.

## 1. Statws

Wedi'i gymeradwyo

## 2. Polisi

**3.1** Cymhwyso Safonau'r Gymraeg 75,76A,78,79, 100 yng Ngrŵp Colegau NPTC:

Yn unol â dogfen 'Polisi ar ddyfarnu grantiau: Cyngor ar Arfer Da' Comisiynydd y Gymraeg, bydd y Coleg yn ystyried y materion canlynol pan fydd yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol, boed hynny yn ystod y cam hyrwyddo, y cam ymgeisio, wrth gyfweld (lle bo'n berthnasol), wrth wneud penderfyniadau, neu wrth ddyfarnu grant neu gymorth ariannol ac unrhyw waith dilynol gyda'r ymgeisydd.

Bydd cadw at y rhestr wirio yn **Adran 6.2** isod yn sicrhau bod y Coleg yn:

- cyhoeddi'r holl ddeunyddiau ymgeisio ac arweiniad yn Gymraeg
- parchu dewis iaith unigolion drwy gydol y broses ymgeisio
- nodi unrhyw effeithiau ar y Gymraeg (cadarnhaol, negyddol neu'r ddau)
- nodi ffyrdd o hybu'r Gymraeg, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg
- lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg
- gweithredu amodau ar unrhyw grant neu gymorth ariannol mewn perthynas â'r Gymraeg lle bernir bod hyn yn angenrheidiol.

**3.2** Categorïau o grantiau a chymorth ariannol

Ar hyn o bryd, nid yw'r Coleg ei hun yn dyfarnu grantiau na chymorth ariannol - ond mae'r Coleg yn rhoi cymorth i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru (drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn) ac felly mae gan y Coleg ddyletswydd i wirio bod telerau ac amodau penodol y grant/cymorth ariannol yn cynnwys ystyriaethau Cymraeg.

Mae'r adran Cymorth a Chynhwysedd Myfyrwyr yn rheoli'r CAWG bob blwyddyn, gyda'r nod o gael gwared ar rwystrau i ddysgu i ddysgwyr mewn caledi ariannol. Bydd mynediad at gymorth ariannol drwy'r gronfa hon yn dibynnu ar incwm y cartref ac amgylchiadau unigol. Gall myfyrwyr sy'n gymwys i gael y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed, neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC) ar gyfer y dysgwyr 19 oed a throsodd wneud cais am gymorth ariannol pellach gan y CAWG.

Pe bai'r Coleg, yn y dyfodol, yn dyfarnu grantiau/cymorth ariannol y mae wedi'i ariannu ei hun, yna byddai'r polisi hwn yn berthnasol.

Pe bai'r Coleg, yn y dyfodol, yn dyfarnu grantiau/cymorth ariannol ar ran sefydliadau nad ydynt yn dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac nad oes telerau ac amodau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg a nodir yn y cymorth grant/ariannol, yna byddai'r polisi hwn a'i ofynion yn berthnasol pe bai'r Coleg yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau mewn unrhyw ffordd.

## 4. Gweithdrefn

**4.1** Canllawiau ar gyfer staff Cymorth i Fyfyrwyr a Chynhwysedd sy'n gweinyddu'r CAWG:

*Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rh. 6) 2017 yn gosod gofyniad statudol ar y Coleg i sicrhau bod yr holl grantiau a chymorth ariannol a roddir ganddo yn ystyried a oes ffyrdd y gellid diwygio'r fenter i gynnwys effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg neu a ellid cynnwys camau gweithredu i leihau effeithiau negyddol neu eu dileu'n gyfan gwbl.*

*Wrth gydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn, rhaid ystyried ceisiadau gynnwys effaith bosibl y grant neu gymorth ariannol ar y meysydd canlynol:*

*- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg*
*e.e. myfyrwyr, staff, preswylwyr ac ymwelwyr*
*- effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg*
*e.e. addysg cyfrwng Cymraeg, cyfleoedd astudio, cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 / cysylltiadau â datblygiadau Cwricwlwm i gefnogi Strategaeth Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol,*

**Commented [PR1]:** I think 'College' is missing from the English, could you check?

*- cyfleoedd i hybu'r Gymraeg*
*e.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd mewn gwaith, ar gampysau, ac yn y gymuned. Hyrwyddo'n weithredol y defnydd o'n gwasanaethau yn Gymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser.*

*- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*

Bydd y tîm Cymorth a Chynhwysedd Myfyrwyr yn asesu ceisiadau a gallant ofyn cwestiynau pellach lle bo angen neu gallant osod amod grant a fyddai'n gofyn am gwblhau camau penodol i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg.

**4.2** Telerau ac Amodau:

Rydym yn awgrymu y dylid cynnwys y canlynol yn yr holl delerau ac amodau y mae'r Coleg yn eu cyhoeddi ar gyfer grantiau a chymorth ariannol:

*Dyfernir y grant hwn/cymorth ariannol yn unol â gofynion ein Polisi ar Grantiau Dyfarnu, a gyhoeddir i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*

Lle bo hynny'n berthnasol:

*Er mwyn bodloni gofynion y telerau ac amodau hyn, rhaid i chi gydymffurfio â'r canlynol*

*- <<mewnosod amodau grant penodol mewn perthynas â'r Gymraeg>>*
*neu*
*- <<rhestru camau cytunedig y mae'r ymgeisydd wedi'u nodi i sicrhau effeithiau cadarnhaol, neu i leihau effeithiau negyddol (bydd y rhain wedi cael eu trafod yn ystod y cam penderfynu). >>*

*Efallai y byddai'n briodol mewn rhai achosion osod amod ar grant neu ryw fath o gymorth ariannol i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Gallai hyn fod mor syml â'i gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos arwyddion dwyieithog, i gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu fod gweithgareddau yn cael eu darparu yn Gymraeg.*

Dylai unrhyw ofynion i adrodd ar y defnydd o'r grant neu gymorth ariannol hefyd gynnwys gofyniad i adrodd ar effeithiau'r Gymraeg hefyd.

**4.3** Diffiniad o Effeithiau

Effaith Negyddol neu Andwyol:

Dyma lle nodir y gallai menter (neu ryw agwedd ohoni) gael effaith negyddol ar y Gymraeg drwy leihau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, lleihau nifer neu ganran y siaradwyr Cymraeg, trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu beidio â'i hyrwyddo.

Gall effaith negyddol fod yn gwbl anfwriadol a dod i'r amlwg dim ond pan fydd ymchwil neu ymgynghori yn digwydd neu drwy ofyn am gyngor gan Swyddogion Polisi perthnasol.

Gall effaith negyddol ddigwydd hefyd pan fydd menter yn cael ei dileu neu pan na fydd yn parhau mwyach. Felly, dylid ystyried y materion hyn yn ystod y broses o wneud penderfyniadau ar gais.

Effaith Gadarnhaol:

Dyma lle nodir y gallai menter (neu ryw agwedd ohoni) gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu niferoedd neu ganran y siaradwyr Cymraeg neu drin y Gymraeg yn fwy ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith/Dibwys:

Dyma lle nodir efallai na fydd menter (neu ryw agwedd ohoni) yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

## 5. Monitro

Mae'r Polisi hwn yn atodiad i Bolisi Iaith Gymraeg ehangach y Coleg a bydd yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cynorthwyol: Cwricwlwm a'r Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd mewn cyfarfodydd chwarterol o'r Gweithgor Dwyieithrwydd.

## 6. Adolygiad

Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu deirblwydd gan y Gweithgor Dwyieithrwydd. Dyddiad Adolygu Nesaf: Hydref 2026.

## 6. Atodiadau

**6.1** Atodiad 1: Fframwaith Asesu

APPENDIX-1-Assessment Framewo

**6.2** Atodiad 2: Rhestr Wirio

APPENDIX-2 - Checklist.docx

**6.3** Atodiad 3: Dogfen Comisiynydd y Gymraeg 'Polisi ar ddyfarnu grantiau: Cyngor ar arfer da'

WLC policy on awarding grants gu